Adroddiad Arolwg Adran 50 Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Gynradd Maesincla

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1DF

Esgobaeth: Bangor

Awdurdod Lleol: Gwynedd
Dyddiadau'r arolwg: Medi 29ain 2026
Rhif cyfeirnod unigryw'r ysgol: 6613005
Pennaeth: Ms Manon Gwynedd
Enw'r arolygydd: Mr Neil Roberts B.Ed.

Cyd-destun yr Ysgol
Mae Ysgol Maesincla yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg dan Reolaeth Wirfoddol yn nhref hanesyddol Caernarfon. Adeiladwyd yr ysgol yn wreiddiol fel ysbyty ac fe'i sefydlwyd fel ysgol Eglwysig ym 1941. Mae 317 o ddysgwyr amser llawn a 42 o ddysgwyr rhan-amser. Mae gan yr ysgol 11 dosbarth, gan gynnwys dosbarth Meithrin. Mae'r rhain yn cynnwys sawl dosbarth oedran cymysg a dosbarthiadau sy'n darparu cymorth i rai dysgwyr ag anghenion cymhleth. Penodwyd y Pennaeth yn 2019 ac mae'n cael ei chefnogi gan Ddirprwy Bennaeth. Mae 13 o athrawon amser llawn ac 1 rhan-amser. Mae cefnogaeth i bob dosbarth, a hynny gan grŵp o 22 o gynorthwywyr addysgu. Mae'r ysgol wedi adrodd bod gan 48.4% o ddysgwyr ag ADY. Y dangosydd prydau ysgol am ddim yw 49.3%. Mae 71.9% o ddysgwyr yn siarad Cymraeg gartref. Presenoldeb y flwyddyn academaidd ddiwethaf oedd 90.15%

Natur unigryw ac effeithiolrwydd Ysgol Maesincla fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae Ysgol Maesincla yn lle dysgu Cristnogol hapus, croesawgar a chynhwysol lle mae dysgwyr yn cael eu rhoi wrth wraidd popeth y mae'r ysgol yn anelu at ei gyflawni. Mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn unigryw a'i gefnogi a'i herio i wneud y mwyaf o'u gwir botensial. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i feithrin a gofalu am ei holl ddysgwyr trwy ymagwedd gadarnhaol a phersonoledig at ddysgu mewn amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol. Mae'r perthnasoedd meithringar cadarnhaol sy'n bodoli ar draws yr ysgol yn sicrhau bod unigolion, staff a theuluoedd yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da a bod pawb yn parchu ei gilydd. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion cymhleth.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant Cristnogol sefydledig ac mae'n falch o'i statws eglwysig wrth galon y gymuned. Mae ei gweledigaeth Gristnogol wedi'i hymgorffori yn ei gwreiddiau diwinyddol a, thrwy gyfuno egwyddorion "Ysgol Anogaeth", gyda'i

gwerthoedd craidd, mae'n sicrhau bod ei natur unigryw yn cael ei diffinio'n glir ac yn cael ei byw'n gyson. Mae'r egwyddorion hyn yn cael effaith gref ar gymuned yr ysgol, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiad dysgwyr a'u hannog i dyfu a datblygu fel unigolion caredig, parchus a goddefgar, gan ofalu am eu hysgol, eu teulu, eu cymuned, Cymru a'r byd ehangach.

Mae themâu dathlu, ymroi, cydweithredu a chydweithio'n hyrwyddo'r ddamcaniaeth y bydd cymuned yr ysgol yn dysgu pwysigrwydd ei gwerthoedd Cristnogol trwy weddi ac addoli rheolaidd, ysbrydol ac ystyrlon. Mae cwricwlwm cyfoethog ac amrywiol, wedi'i wreiddio yn y ffydd Gristnogol, sy'n cynnwys profiadau pwrpasol a diddorol sydd wedi'u cynllunio'n dda, gan gynnwys astudiaethau diwylliannol a chrefyddol amrywiol, yn galluogi dysgwyr i ddysgu byw eu bywydau gyda set dda a datblygol o werthoedd a moesau.

Mae'r weithred o wasanaeth Cristnogol yn cael ei datblygu trwy ystod o brosiectau elusennol gan ddysgwyr a staff fel ei gilydd. Trwy gydweithredu â'r holl randdeiliaid, mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ac arwyddocâd ei hegwyddorion Cristnogol. Mae perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng staff a dysgwyr yn cyfrannu at ei chymeriad teuluol a chynhwysol cynnes.

Mae Ysgol Maesincla yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo a dathlu ei statws Cristnogol ac yn meithrin parch at gredoau, diwylliannau a ffyrdd eraill o fyw.

Cryfderau sefydledig

- Gweledigaeth ac arweinyddiaeth Gristnogol ysbrydoledig y Pennaeth sy'n cael eu cefnogi'n dda iawn gan staff a llywodraethwyr.
- Mae gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn galluogi dysgwyr i ddeall sut y gallant effeithio ar eu bywydau.
- Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a dysgwyr yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol.
- Mae cysylltiadau cryf â'r eglwys, yr esgobaeth a'r gymuned yn atgyfnerthu statws Eglwysig yr ysgol.

Argymhellion

- Annog dysgwyr i gynllunio a threfnu Addoli ar y Cyd yn rheolaidd.
- Parhau i weithio'n agos gyda'r Eglwys a'r Esgobaeth a datblygu cysylltiadau ymhellach ag ysgolion Eglwysig eraill i rannu arfer da.
- Datblygu ardal o'r amgylchedd awyr agored fel lle ysbrydol i ddysgwyr a staff ei ddefnyddio ar gyfer gweddi a myfyrdod.

Mae'r ysgol, trwy ei chymeriad Cristnogol unigryw, yn diwallu anghenion pob dysgwr gan gynnwys cyfraniad Crefydd, gwerthoedd a moeseg i Gymeriad Cristnogol yr ysgol

Mae gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) rôl bwysig yn cefnogi ethos Cristnogol yr ysgol. Mae Ysgol Maesincla yn ymdrechu i ddarparu addysg unigryw, o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru. Mae staff wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu cwricwlwm eang a gwahaniaethol gydag ystod o

brofiadau creadigol ac ystyrlon sy'n helpu i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o bwysigrwydd cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymuned. Mae cynllunio yn drylwyr, gyda dilyniant clir a bwriedir i'r gwersi fod yn ddengar ac amrywiol, gan ddefnyddio ystod o strategaethau. Mae trefniadaeth effeithiol yn annog archwilio annibynnol a chydweithredol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n hyderus, gan drafod materion a chwestiynau a rhannu syniadau'n frwdfrydig. Maent yn cael eu harwain i ddatblygu'r sgiliau a fydd yn eu helpu i fod yn aelodau effeithiol o'r gymdeithas. Mae dysgwyr yn gefnogol o'i gilydd ac yn arddangos gwybodaeth dda o agweddau allweddol ar Gristnogaeth a'r Beibl, gydag ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd diwrnodau nodedig yng nghalendr yr Eglwys. Mae ffocws amlwg ar ddiwylliant a threftadaeth Cristnogol Cymru. Mae ymagwedd gynhwysol yn caniatáu i ddysgwyr gymharu credoau Cristnogol â chrefyddau a diwylliannau gwahanol, gan ddatblygu parch at safbwyntiau gwahanol a dangos empathi i amrywiaeth o fewn cymdeithas.

Mae gan lais y dysgwr rôl amlwg yn yr ysgol ac mae'n gwneud cyfraniadau pwysig i'w phwrpas Cristnogol. Mae dysgwyr yn ymgymryd â rolau arwain mewn nifer o gynghorau ac yn datblygu sgiliau bywyd allweddol yn y broses. Maent yn cael eu hannog a'u cymell i wneud yr hyn y gallant i helpu eraill. Maent yn dangos tosturi ac ymrwymiad i helpu'r rhai mewn angen ac yn falch o'u cefnogaeth i elusennau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain wedi cynnwys Ymchwil Canser, Plant mewn Angen, Hosbis Dewi Sant a Siop Shafins – prosiect sy'n cael ei redeg ar y cyd â rhieni i ddarparu eitemau i'r gymuned.

Mae gwerthoedd Cristnogol nodedig yr ysgol yn amlwg ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Mae eu dylanwad a'u heffaith yn adlewyrchu ei chymeriad cynnes, ysbrydoledig a chynhwysol. Ynghyd â statws yr ysgol fel "Ysgol Anogaeth", mae'r egwyddorion hyn yn cael effaith o bwys ar ddatblygiad, agweddau ac ymddygiad y rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae'r bartneriaeth hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr holl ddysgu yn yr ysgol. Oherwydd y perthnasoedd meithringar agos sy'n bodoli, mae rhanddeiliaid yn teimlo'n ddiogel a bod gofal a pharch atynt. Mae dysgwyr yn mynegi nodweddion gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol ac yn dechrau deall yr effaith y maent yn ei chael ar eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf yn falch o fod yn aelodau o'r ysgol, yn awyddus i ddysgu, yn gwrtais ac yn ystyriol ac yn gwrtais i gyd-ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Maent yn cael eu hysbrydoli i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain. Mae dysgwyr hŷn yn dangos ystyriaeth ofalgar a meddylgar tuag at ddysgwyr iau.

Mae Ysgol Maesincla wrth galon bywyd y gymuned ac mae ei chysylltiadau ag eglwysi Llanbeblig a'r Santes Fair yn gryf iawn. Mae'r cysylltiadau hyn yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned gyda dysgwyr yn cymryd rhan weithredol mewn addoli a digwyddiadau cymunedol. Mae'r ymweliadau hyn yn cryfhau profiadau ysbrydol dysgwyr, yn cryfhau ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o werthoedd y ffydd Gristnogol ynghyd ag ymdeimlad o berthyn ac ymrwymiad i'r gymuned. Mae'r ysgol yn cael ei chefnogi a'i harwain yn dda iawn gan y Rheithor, y mae ei gyngor a'i anogaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae ganddo rôl bwysig a dylanwadol wrth ddatblygu cysylltiadau â'r Eglwys, yr Esgobaeth a'r gymuned.

Effaith Addoli ar y Cyd ar gymuned yr ysgol.

Mae addoli ysgol gyfan yn ganolog i fywyd yr ysgol ac yn digwydd bob dydd. Mae'n dilyn strwythur Cristnogol unigryw. Mae'r ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod egwyddorion addoli wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, ysbrydol, llawen a dengar, gan adlewyrchu ei gwerthoedd Cristnogol ac egwyddorion "Ysgol Anogaeth". Mae addoli yn cael ei ystyried yn achlysur arbennig ac yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol, gan ganiatáu i holl aelodau teulu'r ysgol ddod at ei gilydd fel un gymuned Gristnogol, gan ddarparu ffocws dyunol ar gyfer pob diwrnod gyda chyfleoedd i weddïo, dathlu a myfyrio. Mae rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r gymuned yn dod i addoli yn rheolaidd.

Caiff addoli ei gynllunio a'i gydbwyso'n ofalus i sicrhau bod gwerthoedd craidd yr ysgol yn cael eu cynnwys yn amlwg, ynghyd â dynodi gwyliau nodedig yng nghylch y flwyddyn Gristnogol. Mae themâu yn cael eu dewis yn ofalus i fod yn berthnasol i ddysgwyr ifanc ac yn cael eu cysylltu'n gyson â'r ddysgeidiaeth Gristnogol, gan sicrhau bod y profiad o addoli yn ysbrydol gyfoethogol, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr ystyried arweiniad Duw. Cyfeirir at y Beibl yn gyson, a gofynnir i ddysgwyr fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i weld a'i glywed a myfyrio ar sut y gall y pethau hyn effeithio ar eu bywydau a'r penderfyniadau y gallant eu gwneud.

Mae addoli yn brofiad cadarnhaol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mwynhau cyfranogi'n rheolaidd ac sy'n hyderus wrth drafod materion a chwestiynau a allai godi, gan eu helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth bod bywyd yn golygu gwneud dewisiadau yn seiliedig ar agweddau, ymddygiad a pherthnasoedd. Wrth gael eu holi, roedd dysgwyr yn cofio llawer o straeon o'r Beibl yn frwdfrydig ac yn cyfeirio atynt gyda mwynhad a phleser ynghyd â dealltwriaeth dda o'u negeseuon moesol sylfaenol. Mae addoli hefyd yn adlewyrchu themâu ac achlysuron a all gyfeirio at sefyllfaoedd lleol, cenedlaethol neu fyd-eang. Mae'r achlysuron hyn yn cael eu cyflwyno mewn modd ystyriol. Yn ogystal â chynnwys ffocws Cristnogol clir, mae addoli yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth bod bywyd yn cynnwys dewisiadau o ran cred a ffyrdd o fyw, gan gydnabod parch at gredoau a diwylliannau eraill.

Mae gweithredoedd addoli yn adlewyrchu traddodiadau Anglicanaidd eang. Mae statws Cristnogol yr ysgol yn cael ei adlewyrchu yn narpariaeth canolbwynt gyda symbolau ac arteffactau, arddangosfeydd, cerddoriaeth, caneuon ac emynau, gweddïau ac ymatebion traddodiadol Cristnogol, gan gynnwys Gweddi'r Arglwydd a Gras, a chyfnod o fyfyrio tawel. Mae arddangosfeydd ysgogol ac effeithiol o amgylch yr ysgol yn gwella ac yn dathlu treftadaeth a ffocws Cristnogol yr ysgol. Mae addoli hefyd yn canolbwyntio ar eiliadau pwysig ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Mae cydnabod a dathlu cyflawniadau personol a llwyddiant yn rhywbeth y mae'r ysgol yn ei wneud yn dda. Mae pob cyflawniad, unigoliaeth ac amrywiaeth yn cael eu cydnabod yn rheolaidd ac yn llawen.

Mae'r ymweliad wythnosol gan y Rheithor i arwain addoli, gyda chefnogaeth dysgwyr, yn gwneud cyfraniad pwysig i ddarpariaeth addoli. Mae ei ymweliadau yn gynhwysol ac yn ysbrydoledig, gan gyfoethogi'r profiad o addoli ac yn cynnig dyfnder ac ystyr diwinyddol i bob achlysur. Mae'r ymweliadau hyn yn cryfhau cysylltiad yr ysgol â'r eglwys a'r gymuned ehangach ac yn cefnogi ei datblygiad fel ysgol Eglwysig. Mae Addoli ar y Cyd yn brofiad sy'n cael ei rannu gyda'r gymuned ac nid yw'n gyfyngedig i adeilad yr ysgol. Mae dysgwyr a staff yn ymweld â'r

eglwysi yn Llanbeblig a'r Santes Fair i ddathlu achlysuron fel y Cynhaeaf, y Nadolig a'r Pasg.

Mae gan Ysgol Maesincla broses gadarnhaol a gwreiddiedig o Addoli ar y Cyd sy'n cael ei chynllunio'n dda, sy'n ddathliadol ei natur ac sy'n berthnasol i nodau, anghenion ac ethos Cristnogol yr ysgol. Mae'n rhan allweddol o ffordd yr ysgol o fyw a bod, gan gyfrannu at dwf personol ei dysgwyr a'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth yr ysgol

Mae'r Pennaeth wedi bod yn gyson yn ei dymuniad i hyrwyddo a datblygu statws yr ysgol fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Mae ei harweinyddiaeth egnïol ac ysbrydoledig wedi gosod gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi sicrhau bod ethos Cristnogol yr ysgol wedi'i gyfathrebu a'i fodelu'n effeithiol i bob aelod o deulu'r ysgol a'r gymuned estynedig. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac ymdeimlad o bwrpas sy'n dylanwadu ar ddiwylliant sefydledig yr ysgol o ofal a pharch, lle mae'r pwyslais ar ofal, hapusrwydd a lles pob dysgwr. Mae gwerthoedd Cristnogol, ynghyd ag egwyddorion yr Ysgol Anogaeth, yn llywio pob rhan o fywyd yr ysgol ac yn cael eu gwreiddio ym mhrosesau strategol yr ysgol. Maent wedi'u nodi fel meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.

Mae'r Pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i hyrwyddo natur a gwerthoedd Cristnogol yr ysgol. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cynllunio strategol ac yn gweithio'n dda iawn ar y cyd i ddarparu'r profiadau addysgol gorau i bob dysgwr. Maent wedi ymrwymo i ffocws yr ysgol ar gyfer datblygiad pellach. Mae staff yn meddu ar arbenigedd profiadol a helaeth er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm ac yn cael eu gwerthfawrogi am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau i'r ethos o fod yn dîm. Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a dysgwyr yn nodwedd gref a chadarnhaol o'r ysgol. Mae dysgwyr yn cael eu haddysgu, eu cefnogi a'u trin gan staff mewn amgylchedd dysgu cariadus a pharchus sy'n cyfrannu at eu hymddygiad da a'u hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae datblygiad proffesiynol staff yn cael ei ystyried a'i flaenoriaethu pan fo angen. Mae staff yn cael eu cynghori a'u hannog i fynd ar gyrsiau perthnasol sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu'r ysgol ac sydd wedi'u nodi ynddynt.

Mae gan y Corff Llywodraethu ddealltwriaeth glir o natur, pwrpas a gweledigaeth ysgol yr Eglwys yng Nghymru, ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol. Maent yn cydnabod cymeriad Cristnogol gwreiddiedig yr ysgol, yn ymrwymedig i'w ddatblygu ymhellach ac yn gefnogol iawn o'r staff. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at lawer o rannau o fywyd yr ysgol, gan gynnig cefnogaeth, cyngor, anogaeth a her adeiladol ar sail parch ac ymddiriedaeth ddwy ffordd. Maent yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddatblygu ymhellach. Mae cyfleoedd yn cael eu cynllunio'n rheolaidd i lywodraethwyr gymryd rhan mewn teithiau dysgu, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a gweithgareddau cymunedol. Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth fonitro natur unigryw'r ysgol, adolygu'r cwricwlwm a mynd i addoli. Caiff gwybodaeth am bob agwedd ar fywyd yr ysgol, adroddiadau cynnydd a manylion

CGM, Addoli ar y Cyd ac agweddau'n gysylltiedig â statws yr ysgol fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru, eu hadrodd yn rheolaidd i'r llywodraethwyr gan y Pennaeth.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu datblygu perthnasoedd agos â rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol, sy'n gefnogol iawn. Mae rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi ethos gofalgar a theuluol yr ysgol a'r dull personoledig o ymdrin â phob plentyn. Maent yn gadarnhaol ac yn falch o statws yr ysgol fel ysgol Eglwysig ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i fynd i addoli, gan ganmol yr ethos ysbrydol sy'n treiddio trwy'r achlysuron hyn. Maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddangosir i ddysgwyr i feithrin eu hysbrydolrwydd, a briodolir i'r gwerthoedd Cristnogol sy'n rhan annatod o'r ysgol.

Mae Ysgol Maesincla yn cael ei harwain yn dda iawn gan yr holl arweinwyr sy'n gweithio'n dda iawn i hyrwyddo a datblygu ei statws Cristnogol er budd datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei holl ddysgwyr.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd

YDY

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Wrthrychol, yn Feirniadol ac yn Blwraliaethol

YDY